ASTUDIAETH ACHOS

Sector Peirianneg

Prifysgol Prifysgol Glyndŵr

Teitl Datblygu Gradd Sylfaen Bwrpasol

Cefndir

Cyfarfu Kim Dimmick â Rheolwr Hyfforddiant UPM Papermill, Shotton, Glannau Dyfrdwy, oedd yn chwilio am hyfforddiant penodol i helpu i ddatblygu eu prentisiaid gan nad oes unrhyw Brifysgol/Coleg yn y DU sy'n cyflenwi'r math yma o hyfforddiant ar hyn o bryd. Mae eu prentisiaid yn teithio i Goleg Gernsbach yn yr Almaen, sy'n adnabyddus am ei ragoriaeth mewn technoleg papur, er yn gostus ac yn eithaf pell i ffwrdd.

Roeddent hefyd yn galw am gyrsiau byrion mewn Olwynion Llifanu, Weldio a 17th Edition, rhai ohonynt na allem ni eu cyflenwi ond y gallai Coleg Iâl, y coleg AB lleol.

Her

Cael y wybodaeth Marchnata gywir i ddenu cwmnïau eraill ar gyfer eu 'mewnbrynu' a llunio cwrs 'addas i bwrpas'.

Roedd y cwmni yn chwilio am un person i fod yn rheolwr prosiect ar gyfer eu holl ofynion, gan nad oeddent eisiau delio gyda nifer o gysylltiadau.

Ateb

Daeth Kim ag Ysgolheigion medrus Glyndŵr at ei gilydd i helpu i gynllunio gradd sylfaen mewn Gweithrediadau a Chynnal a Chadw Peiriannau ar gyfer UPM a'u cwmnïau cadwyn gyflenwi a gyflwynwyd ym mis Medi 2011.

Ar gyfer y ddarpariaeth AB, cysylltodd Kim â Choleg Iâl Wrecsam i gyflenwi'r cyrsiau lefel is yr oedd ar y cwmni eu hangen a chytunwyd y byddai Kim yn rheolwr prosiect ar ddarpariaeth Iâl hefyd, o ddyfynbrisio hyd at anfonebu. Roedd hyn yn gweithio allan yn dda iawn i bawb.

Manteision

Mae UPM wedi arbed costau sylweddol trwy weithio gyda Phrifysgol Glyndŵr a Choleg Iâl. Dim ond un person sydd ganddynt i weithio gydag ef i ddechrau ar gyfer eu holl ofynion, sy'n arbed llawer o ddryswch.

Yn sgil y llwyddiant yma, rydym wrthi'n cynllunio hyfforddiant Rheoli ar gyfer eu Goruchwylwyr, a fydd yn cwmpasu Coleg Iâl ac unrhyw arbenigedd arall y teimlwn y bydd UP ei angen.

Yn ogystal, yn sgil llwyddiant y Radd Sylfaen mewn Gweithrediadau a Chynnal a Chadw Peiriannau, yn gynnar yn 2012, datblygwyd y Radd Sylfaen mewn Peirianneg Ddiwydiannol a gyflwynwyd ym mis Medi 2012, sy'n cwmpasu Cynnal a Chadw Peiriannau, Mecatroneg, Peirianneg Drydanol, Mecanyddol ac Awtomasiwn ac Offeryniaeth, sydd wedi bod yn hynod o lwyddiannus, gydag eraill yn ogystal ag UPM yn cofrestru, megis JCB, DRB, Kelloggs, i enwi dim ond rhai.

Ers hynny rydym wedi ymweld â Gernsbach i ymweld â'r Prifathro a thrafod cydweithredu gyda nhw yn y gobaith o gynllunio cwrs Gradd sy'n cwmpasu 'Meistr ar ei Grefft mewn Technoleg Papur'. Rydym yn edrych ymlaen yn awr at groesawu ymwelwyr o Gernsbach yn y flwyddyn newydd i drafod y prosiect hwn ymhellach a gyda lwc, yn y dyfodol gweddol agos, bydd y diwydiant Gwneud Papur yn y DU yn gallu anfon eu prentisiaid am hyfforddiant sgiliau a fydd yn cael ei achredu ac sydd arnynt gymaint o'i angen ac a fydd, yn wir, yn gostwng y costau i gwmnïau yn y DU.